NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Algorithmau methiant y galon i fonitro pobl gyda dyfeisiau electronig y gellir eu mewnblannu cardiaidd o bell

24 Hydref 2024

Mae NICE wedi dweud y gellir defnyddio HeartLogic a TriageHF at ddibenion monitro seiliedig ar algorithmau o bell mewn pobl sydd â dyfeisiau electronig y gellir eu mewnblannu cardiaidd (CIEDs) gyda methiant y galon.

Mae angen cynnal rhagor o ymchwil ar y canlynol:

- HeartInsight at ddibenion monitro seiliedig ar algorithmau mewn pobl sydd â CIEDs gyda methiant y galon a
- HeartInsight, HeartLogic a TriageHF at ddibenion monitro o bell mewn pobl sydd â CIEDs sy'n wynebu risg o ddatblygu methiant y galon.

Mae NICE wedi dweud na ddylid defnyddio CorVue at ddibenion monitro seiliedig ar algorithmau o bell mewn pobl sydd â CIEDs sy'n wynebu risg o ddatblygu methiant y galon. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod CorVue yn colli rhai arwyddion bod methiant y galon yn gwaethygu a bod ganddo gyfradd uchel o rybuddion nad ydynt yn cael eu dilyn gan fethiant y galon sy'n gwaethygu (positif anghywir).

Methiant y galon yw pan na all y galon bwmpio digon o waed i ddiwallu anghenion y corff. Cynigir CIEDs i rai pobl sydd â methiant y galon neu sy'n wynebu risg o'i ddatblygu, y gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eu defnyddio i fonitro sut mae eu calon yn gweithio.

Monitro o bell yw gallu rhai CIEDs i anfon gwybodaeth am y galon yn ddiwifr i system monitro o bell, er mwyn iddi gael ei hastudio gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae monitro o bell seiliedig ar algorithmau yn galluogi'r CIED i ddadansoddi mân newidiadau yn y ffordd y mae'r galon yn gweithio. Os bydd yn canfod arwyddion cynnar bod methiant y galon yn gwaethygu, bydd y CIED yn anfon rhybudd yn ddiwifr at weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae hyn yn

golygu y gall yr unigolyn gael triniaeth cyn gynted â phosibl ac osgoi ymweliadau diangen â'r ysbyty.

### A yw'r dechnoleg hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda mae'n gweithio o gymharu â ffyrdd eraill o fonitro?
- Beth yw'r risgiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am ddefnyddio'r dechnoleg hon?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y dechnoleg yn gweithio?
- Sut y caiff y gwaith monitro seiliedig ar algorithmau ei actifadu? A ellir gwneud hyn yn fy nghlinig neu ysbyty lleol? Faint o amser y bydd yn ei gymryd?
- Sut mae'r ddyfais yn anfon rhybuddion? A oes angen cysylltiad rhyngrwyd arnaf?
- Sut bydd fy ngwybodaeth yn cael ei defnyddio, os caiff ei chasglu?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG ar fethiant y galon fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Arrhythmia Alliance, 01789 867501 501
- Cardiomyopathy UK, 0800 018 1024
- Heart Valve Voice, info@heartvalvevoice.com
- Pumping Marvellous, 01772 796542

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

NICE National Institute for Health and Care Excellence

© **NICE 2025**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-7435-1